

Adran 2:

Recriwtio a dethol mwy diogel

Cyflwyniad

Fel eglwysi mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod y rhai hynny sy'n gofalu am blant a phobl fregus yn ein plith yn addas. Rydym eisiau gallu dweud wrth rieni, gofawyr ac awdurdodau statudol ein bod wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y rheini sy'n edrych ar ôl plant a phobl ifanc ac oedolion bregus yn ddiogel ac yn gallu gwneud eu gwaith.

Efallai y byddwn yn teimlo ein bod yn adnabod pawb yn ein cymuned neu nad ydym am wrthod unrhyw wirfoddolwyr parod, ond mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i sicrhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i ddiogelu plant a phobl fregus.

Un o'r prif ffyrdd y gallwn wneud hyn yw trwy ddilyn proses recriwtio fwy diogel sy'n rhoi ystyriaeth ofalus i addasrwydd pob ymgeisydd ac sy'n deg, yn dryloyw ac yn berthnasol i bawb. Mae'n dilyn felly y dylai arweinwyr a gweithwyr, boed hwy'n gyflogedig neu'n wirfoddolwyr, a'r rheini sy'n dal amryw o swyddi eraill o ymddiriedaeth a chyfrifoldeb, wynebu proses recriwtio drylwyr. Gall fod yn deimlad annifyr i ofyn i bobl rydym yn eu hadnabod i gwblhau ffurflen gais neu roi enwau canolwyr ond wrth i bobl wirfoddoli neu ymgeisio am swyddi mae angen i ni sicrhau fod ganddynt y sgiliau priodol, a mynediad at gymorth a hyfforddiant a'n bod ninnau wedi gwneud y gwiriadau cefndir priodol.

Mae'r broses recriwtio a nodir isod yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau arfer da a bu'n rhan o bolisi'r eglwys fel y nodwyd yn ein canllaw blaenorol, "Er Mwyn ein Plant". Mae'r canllawiau hyn a ddiweddarwyd yn gyfle i sicrhau bod ein harferion presennol yn unol â'n polisi a'n bod yn hyderus ein bod yn gweithredu hyd eithaf ein gallu i ddiogelu plant a phobl fregus yn ein plith.

‘Mae trefn effeithiol o recriwtio a dethol staff yn hanfodol i ddiogelu plant. Y drefn recriwtio a'r gwiriadau a wneir fel rhan o'r broses honno yw cyfle cyntaf y sefydliad i wneud ymdrechion cadarn i atal unigolion anaddas rhag gweithio gyda phlant.’

Children's Workforce Development Council, 2009

2.1 Proses recriwtio mwy diogel

1. Mae'r ymgeisydd yn cwblhau Ffurflen Gais neu Ffurflen Wirfoddoli (Ffurflen 1)

Mae'r ffurflen yn gofyn am wybodaeth megis: Enw llawn, cyfeiriad a manylion cyswllt, a phrofiad blaenorol o weithio gyda phlant, fel gwirfoddolwr neu weithiwr cyflogedig. Hefyd, gofynnir am fanylion eu presenoldeb yn yr eglwys, neu waith o fewn yr eglwys ac enwau dau ganolwr annibynnol sy'n gallu tystio i hanes cyflogaeth yr ymgeisydd neu ei hanes fel gwirfoddolwr gyda phlant a/neu oedolion bregus.

2. Mae'r ymgeisydd yn cwblhau Ffurflen Hunan-Ddatganiad (Ffurflen 2)

Bydd y ffurflen yn cael ei chadw'n ddiogel gan unigolyn a enwyd o fewn yr eglwys am dair blynedd. Yn achos y rheini fydd yn gweithio gyda grwpiau bregus mae'r ffurflen hon yn gofyn am fanylion unrhyw gollfarnau troseddau neu gyhuddiadau troseddol cyfredol, gan gynnwys collfarnau a ystyrir yn 'hysbydd' o dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

3. Dylid cynnal **cyfweliad ffurfiol** â phob ymgeisydd cyflogedig, a chyfweliad anffurfiol â darpar wirfoddolwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyletswyddau sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

4. Ar ôl i chi gytuno i benodi'r ymgeisydd neu wirfoddolwr, dylech benderfynu a oes angen iddynt gael **Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS)**⁴ cyn iddynt ddechrau gweithio'n uniongyrchol â phlant neu oedolion bregus. (I gael mwy o wybodaeth am weithgareddau a reoleiddir a gwiriadau gweler 2.3)

5. Dylid sicrhau geirda gan ddau ganolwr annibynnol (Ffurflen 4)

Dylid rhoi gwybod i'r canolwyr beth yw natur y gwaith dan sylw, a gofyn iddynt roi sylwadau ar addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y gwaith hwnnw.

6. Trefnu hyfforddiant priodol

Mae angen i weithwyr ddysgu am arferion gwaith da wrth weithio gyda phlant neu oedolion bregus (yn ôl yr hyn sy'n berthnasol i'w gwaith) a disgwyliadau ynghylch eu swyddogaeth. Hefyd, mae angen iddynt dderbyn hyfforddiant ynghylch amddiffyn plant a diogelu oedolion bregus, gan gynnwys gwybodaeth glir a chanllawiau ynglŷn â sut y dylid ymateb i unrhyw bryderon. Mae hyfforddiant priodol yn sicrhau bod arweinwyr a chynorthwywyr yn adnabod gweithredoedd y gellid eu camddehongli, a sefyllfaoedd a allai eu gadael yn agored i honiadau. Mae gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddi addas ar gael gan Swyddfa'r Panel Diogelwch Cydenwadol.

⁴ Gelwid yn CRB yn flaenorol.

Sylwer hefyd ar y pwyntiau canlynol:

- Dylech ystyried sicrhau bod darpar wirfoddolwr wedi cymryd rhan yng nghymuned yr eglwys am o leiaf chwe mis cyn hyn.
- Lluniwch ganllawiau priodol o ran tasgau a dyletswyddau, yn cynnwys manylion am atebolrwydd a chymorth (gweler Atodiad 2).
- Dylech sicrhau geirda gan o leiaf un canolwr sydd â phrofiad o waith cyflogedig neu wirfoddol yr ymgeisydd. Yn ddelfrydol, dylai canolwyr fod yn gydweithwyr i'r ymgeisydd. Os na fydd gan yr ymgeisydd brofiad o waith o'r fath, dylai'r geirda ymwneud â'i gymeriad a'i berthynas ag eraill. Dylid osgoi gofyn am eirda ar y ffôn. Dylid gofyn am eglurhad pellach ar y ffôn ar ôl derbyn geirda ysgrifenedig os oes angen. Dylid wynebu unrhyw amheuan ynghylch addasrwydd ymgeisydd; dylid gwyro bob amser ar ochr pwyll.
- Bydd penodiadau staff cyflogedig a gwirfoddolwyr yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus.
- Gall pobl ifanc (14-15 oed) gynorthwyo â gweithgareddau, ond dylid eu trin fel 'ymwelwyr'. Dylid rhoi cymorth iddynt a'u goruchwyllo bob amser.
- Dylid trin pobl ifanc (16-18 oed) fel oedolion gyda chaniatâd eu rhieni/gofalwyr a dylid dilyn y drefn uchod os ydynt yn gweithio'n rheolaidd gyda grwpiau bregus heb unrhyw oruchwyliaeth.

2.2 Beth yw Datgeliad?

Mae datgeliadau yn galluogi sefydliadau i wirio gwybodaeth am unigolion a gedwir yng nghofnodion heddluoedd cenedlaethol a lleol a rhestrau cyfrinachol a gedwir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)⁵ ynghylch y rheini sy'n anaddas i weithio gyda phlant a/neu oedolion bregus.

Dylai cais am ddatgeliad gael ei wneud yng nghanolaf y broses recriwtio. Golyga hyn y gall sefydliad ddilyn proses recriwtio, a phenderfynu ei fod yn bwriadu penodi'r ymgeisydd neu wirfoddolwr ar yr amod na fydd y dystysgrif datgeliad yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n destun pryder. Mae newidiadau yn y broses DBS yn rhoi'r cyfrifoldeb am ddilyn y camau recriwtio priodol yn gadarn ar ysgwyddau'r sefydliad ac mae gwiriad DBS yn un rhan o'r broses honno'n unig.

*“Cyn i sefydliad ystyried gofyn i unigolyn ymgeisio am wiriad DBS, yn gyfreithiol rhaid i'r sefydliad hwnnw sicrhau bod ganddo'r hawl i gyflwyno gwiriad am rôl y swydd honno”.*⁶

Nid yw canllawiau DBS yn ein galluogi i wirio pawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus o reidrwydd. Nid yw'n bosibl cynnal gwiriad “rhag ofn” y bydd rhywun yn gweithio gyda grwpiau bregus, ond mae'n rhaid edrych ar union swyddogaeth a natur y cysylltiad gyda phobl bregus ym mhob achos.

Mae'n rhaid i swyddog cydlofnodi'r Panel Diogelwch Cydenwadol gadarnhau bod y swydd yn gymwys dan ddarpariaethau cyfreithiol cyfredol cyn y gall gydlofnodi'r ffurflen gais. Mae'n anghyfreithlon i sefydliad ofyn am wybodaeth drwy dystysgrif datgeliad os nad oes ganddo hawl i gael yr wybodaeth honno. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd yn datgelu troseddau penodol ar ffurflen hunan-ddatganiad a'ch bod yn penderfynu yn sgil hyn na ddylent weithio gyda phlant a/neu oedolion bregus, mae'n anghyfreithlon i chi barhau â'r cais am ddatgeliad dim ond er mwyn gweld os oedd yr hyn a ddatgelwyd yn wir.

Er mwyn penderfynu a oes angen gwneud gwiriad ac, os felly, pa fath o wiriad sy'n briodol, mae'n hanfodol ystyried a yw'r gweithgaredd wedi'i reoleiddio ai peidio. Ar yr amod bod y swydd yn cynnwys ‘Gweithgaredd a Reoleiddir’⁷ mae'n gyfreithiol i ofyn am Ddatgeliad Manwl gyda Gwiriad Rhestr Gwahardd. Yn wir, mae'n rhaid i aelodau staff sy'n ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir cael gwiriad DBS yn cynnwys gwiriad rhestr gwahardd cyn iddynt weithio gyda grwpiau bregus gan fod yn rhaid i'r cyflogwr gymryd camau perthnasol i sicrhau nad yw'n cyflogi unigolyn sydd wedi'i wahardd.⁸

Os bydd rhywun yn gweithio'n agos gyda grwpiau bregus heb gwrdd â'r meini prawf o ran gweithgaredd a reoleiddir, gellir gofyn am wiriad manwl heb wiriad rhestr gwahardd ar yr amod bod y gweithgaredd neu'r swydd yn gymwys am wiriad cyn y newidiadau a gyflwynwyd ym mis Medi 2012.

⁵ Gelwir gwiriadau CRB bellach yn wiriadau DBS. Mae'r Panel Diogelwch Cydenwadol yn gyfrifol am gynnal gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd y Panel yn eich cynorthwyo i benderfynu pa fath o wiriad sy'n briodol.

⁶ Canllaw cynhwysedd DBS v2.1 – Hydref 2013

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/251947/DBS_guide_to_eligibility_Welsh_v2_1.pdf

⁷ fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

⁸ Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.

2.3 Beth yw Gweithgaredd a Reoleiddir a Gweithgaredd nas Rheoleiddir?

Gweithgaredd a Reoleiddir: Gweithgaredd na chaiff unigolyn sydd wedi'i wahardd ei wneud.

A. Gyda PHLANT

Bydd gweithgaredd a reoleiddir yn cynnwys:

1. Gweithgareddau nad ydynt yn cael eu goruchwyllo: megis dysgu, arolygu, hyfforddi neu roi gofal personol neu gyngor/arweiniad ynghylch lles.
2. Sefydliadau Penodedig: yn cynnwys sefydliadau addysgol, adeiladau gofal plant a chartrefi gofal preswyl i blant.
3. Gofal Personol*: Ymolchi a gwisgo, bwyta, yfed a thoiledu neu annog rhywun i wneud hynny.
4. Gofal iechyd* a roddir gan unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol, neu dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth gweithiwr o'r fath.
5. Gwarchodwyr Plant Cofrestredig* a Gofalwyr Maeth*.
6. Rheolaeth gyson dros unigolyn sy'n darparu gweithgaredd a reoleiddir.

Ac eithrio'r gweithgareddau a nodir * mae yna amod amledd i benderfynu a yw gweithgaredd yn cael ei ystyried yn un a reoleiddir. Mae angen i'r ymgeisydd gymryd rhan yn y gweithgaredd:

- unwaith yr wythnos neu'n amlach
- 4 diwrnod neu fwy yn ystod cyfnod o 30 diwrnod neu
- dros nos rhwng 2am - 6am gyda chyfle i gael cysylltiad wyneb yn wyneb

Felly, ni fyddai'r gwaith a wneir gan gynorthwydd achlysurol yn cael ei ystyried fel gweithgaredd a reoleiddir oni bai ei fod yn rhoi cymorth gyda gofal personol neu ofal iechyd. Byddai rhoi cymorth gyda gofal personol unwaith yn unig yn cael ei ystyried yn weithgaredd a reoleiddir.

B. Gydag OEDOLION

Mae'r diffiniad o 'Weithgaredd a Reoleiddir' yn canolbwyntio ar y gweithgareddau a ddarperir mewn sefyllfaoedd pan fydd yr oedolyn yn cael ei ystyried yn fregus ar yr adeg benodol honno. Golyga hyn nad yw oedolion yn cael eu labelu'n 'fregus' fel y cyfryw oherwydd eu nodweddion neu amgylchiadau personol neu'r lleoliad lle cynhelir y gweithgaredd.

Mae'r diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir yn cynnwys chwe chategori:

1. Gofal iechyd: darperir gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol neu dan oruchwyliaeth gweithiwr o'r fath.
2. Gofal personol: Ymolchi a gwisgo, bwyta, yfed a thoiledu
3. Gwaith cymdeithasol
4. Cymorth gyda materion yn y cartref: unrhyw un sy'n rhoi cymorth dydd i ddydd i oedolyn oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd, lle mae hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am arian yr unigolyn, talu eu biliau, neu siopa ar ei ran.
5. Cymorth gyda Rheolaeth Busnes: Pŵer atwrnai/ Dirprwyon wedi eu penodi o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.
6. Cludo oedolyn i dderbyn gofal iechyd, personol neu gymdeithasol oherwydd oedran, salwch neu anabledd.

Yn wahanol i achosion yn ymwneud â phlant, yn achos oedolion, nid oes unrhyw ofynion o ran sefydliadau penodol nac amllder y gweithgaredd.

Fel arfer, mae gweithgaredd a reoleiddir yn cynnwys y mathau canlynol o waith, ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar y swyddogaeth neu amgylchiadau lleol:

- Gweinidog
- Arolygydd Ysgol Sul
- Athro Ysgol Sul (nad yw'n cael ei oruchwylio bob amser neu sy'n rhoi cymorth i blant ifanc neu blant anabl i fynd i'r toiled)
- Arweinydd gwaith ieuenctid
- Gweithiwr mewn crèche
- Ymwelydd bugeiliol sy'n rhoi cymorth gyda chlodiant i'r ysbyty neu gyda materion ariannol neu siopa

Gweithgaredd nas Rheoleiddir

Pan fydd gweithiwr cyflogedig neu wirfoddolwr yn cyflawni swyddogaeth sy'n cynnwys ymwneud â grwpiau bregus ond nad yw'n bodloni diffiniad 2012 o 'Weithgaredd a Reoleiddir' fel y nodir uchod, mae modd i gyflogwr wneud cais am ddatgeliad manwl heb wiriad rhestr gwahardd.

Gall hyn gynnwys:

- Cynorthwydd Ysgol Sul (dan oruchwyliaeth bob amser)
- Ymddiriedolwr (nad yw'n cymryd rhan mewn gweithgaredd penodol gyda grwpiau bregus)
- Cynorthwydd grŵp ieuenctid (dan oruchwyliaeth bob amser)

(Gweler hefyd 2.5)

2.4 Pa fath o wiriad DBS sydd ei angen?

Os bydd **Gweithiwr plant** yn gweithio heb oruchwyliaeth a/neu yn helpu gyda gofal personol ac yn gweithio'n wythnosol neu dros gyfnod dwys e.e. clwb gwyliau. Os bydd **Gweithiwr gydag oedolion** yn helpu gyda gofal personol a/neu yn cludo oedolyn i apwyntiadau meddygol a/neu'n ymwneud yn uniongyrchol â materion ariannol. Mae hwn yn weithgaredd a reoleiddir.

Rhaid gwneud gwiriad manwl yn cynnwys manylion am waharddiadau

Os bydd rhywun yn cymryd rhan mewn gwaith tebyg i'r uchod ond **dan oruchwyliaeth bob amser** neu'n **gweithio'n achlysurol** yn unig. Fel arfer ystyrir hwn yn weithgaredd nas rheoleiddir.

Gellir gwneud cais am wiriad manwl heb fanylion am waharddiadau

Os bydd rhywun yn gwneud gwaith gweinyddol heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â phobl fregus fel y nodir uchod ac nad ydynt yn goruchwyllo eraill mewn swyddi o'r fath.

Fel arfer, ni ddylid gwneud cais am wiriad DBS

Os nad ydych yn siŵr a oes angen gwiriad neu pa fath o wiriad sy'n briodol

Cysylltwch â:
Swyddfa'r Panel
Diogelwch Cydenwadol
01745 817584
neu ebostiwch
post@
paneldiogelwch
.org.uk

2.5 Enghreifftiau o swyddogaethau a'u cymhwysedd ar gyfer gwiriadau DBS

Nid yw'n bosibl llunio rhestr bendant oherwydd gwahaniaethau yn yr oruchwyliaeth a'r gweithgaredd yn lleol ond gall yr enghreifftiau canlynol⁹ fod yn ddefnyddiol wrth i chi ddod i benderfyniad. Fel rheol, mae'r cymhwysedd yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnir yn hytrach na theitl y swydd.

- Byddai **gweithiwr Ysgol Sul** ar rota yn Weithgaredd a Reoleiddir petai'r gweithiwr yn gweithio heb arolygiaeth bob wythnos, neu'n amlach, neu os byddai'n rhoi cymorth corfforol i blant i fynd i'r toiled (ar un achlysur neu ragor); os byddai'n gweithio llai na hyn byddai'n dal yn gymwys i gael gwiriad DBS manwl heb wiriad rhestrau gwahardd p'un ai yw'n gweithio dan oruchwyliaeth bob amser ai peidio.
- Byddai **gweithiwr crèche** sy'n rhoi cymorth corfforol i blant ifanc i fynd i'r toiled (ar un achlysur neu ragor) yn Weithgaredd a Reoleiddir.
- **Swyddogaethau gweinyddol** - Nid yw Gweinyddwr Eglwys neu Drysorydd er enghraifft yn gymwys ar gyfer Datgeliad gan nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau bregus. Ni ellir cael datgeliadau yn achos y rheini sy'n ymdrin â gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol (oni bai eu bod yn goruchwyllo'r rheini sy'n gweithio mewn Gweithgaredd a Reoleiddir).
- Os bydd **ymdiriedolwr/diacon neu flaenor** yn goruchwyllo neu'n cymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir, byddant angen gwiriad manwl DBS gyda gwiriad rhestrau gwahardd. Mae hyn oherwydd eu bod yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn gweithgaredd a reoleiddir ac nid oherwydd eu bod yn ymdiriedolwr/diacon neu flaenor. Fodd bynnag, gan fod ymdiriedolwyr yn gymwys ar gyfer datgeliad manwl cyn-2012 mae'n bosibl iddynt gael gwiriad manwl heb wiriad rhestrau gwahardd.
- Mae gweithiwr eglwys sy'n **ymweld** â phobl sy'n gaeth i'w cartrefi ac a fydd weithiau yn mynd i siopa neu dalu biliau ar eu rhan yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd a Reoleiddir, a byddai angen cynnal gwiriad manwl gyda gwiriad rhestrau gwahardd.
- Mae gweithiwr eglwys sy'n rhan o griw o wirfoddolwyr sy'n **gyrru aelodau eglwys i'r feddygfa** neu apwyntiadau ysbyty yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd a Reoleiddir.
- Nid yw'r gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r **rota i gludo aelodau'r eglwys** na fyddent fel arall yn gallu dod i'r eglwys, yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd a Reoleiddir gan nad yw gwasanaethau Eglwysi wedi'u cynnwys dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau – oni bai eu bod yn cludo preswylwyr Cartref Gofal, ac yn yr achos hwnnw byddent yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd a Reoleiddir.
- Bydd cwnselydd sy'n derbyn atgyfeiriadau gan Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd a Reoleiddir. Os na fydd y cwnselydd yn derbyn atgyfeiriadau ond yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus, bydd yn gymwys am wiriad manwl DBS heb wiriad rhestrau gwahardd.
- Ni fydd gweithwyr **clwb cinio/banc bwyd neu allgymorth ar y stryd** (e.e. pregethwyr stryd) sy'n gweini bwyd a diod neu'n cael sgwrs gyfeillgar â'u cydweithwyr yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd a Reoleiddir gydag oedolion oni bai eu bod yn cynnig gwasanaeth cwnsela/gofal iechyd proffesiynol neu ofal personol i oedolion.
- Nid yw **timau gweddio** y mae eu haelodau yn gweddio gyda/dros oedolion a phlant mewn man cyhoeddus/canol tref yn cymryd rhan mewn Gweithgaredd a Reoleiddir ac nid ydynt yn gymwys am wiriad manwl DBS. Fodd bynnag, os bydd eu swyddogaethau yn cynnwys gweddio gyda phlentyn/plant yn aml neu'n ddwys mewn lleoliad nad yw'n cael ei oruchwyllo, byddai hyn yn Weithgaredd a Reoleiddir.

2.6 Proses gwneud cais i'r DBS am ddatgeliad

Dilynwyd proses recriwtio a gwnaed penderfyniad i benodi gwirfoddolwr neu weithiwr.

Os bydd yr eglwys neu'r corff sy'n gyfrifol am y penodiad yn penderfynu bod angen gwiriad DBS, dylid rhoi gwybod i'r Panel Diogelwch Cydenwadol ('PDC'). Os ydynt yn ansicr dylent ofyn am gyngor gan y PDC.

Bydd y gweithiwr / gwirfoddolwr yn derbyn pecyn ymgeisio am ddatgeliad DBS drwy'r post gan y PDC neu wiriwr lleol.¹⁰

Bydd y gweithiwr / gwirfoddolwr yn cwblhau'r ffurflen DBS ac yn trefnu apwyntiad gyda'r gwiriwr lleol i ddangos y dogfennau hunaniaeth a nodir yn y pecyn ymgeisio. Bydd y gwiriwr yn gwirio'r dogfennau hunaniaeth ac yn cwblhau'r ffurflen wirio gyda'r ymgeisydd cyn ei dychwelyd i'r PDC i'w chydlofnodi a'i hanfon i'r DBS.

Bydd y gweithiwr / gwirfoddolwr yn derbyn y Dystysgrif Datgeliad yn uniongyrchol gan y DBS. Sylwer: ers 17 Mehefin 2013 cyflwynir un dystysgrif yn uniongyrchol i'r ymgeisydd yn unig yn hytrach na'r PDC. Os bydd ymgeisydd yn anghydweld ag unrhyw wybodaeth ar y Dystysgrif bydd yn rhaid iddo/iddi gysylltu'n uniongyrchol â'r DBS.

Mae'n rhaid i'r gweithiwr / gwirfoddolwr anfon y Dystysgrif wreiddiol (nid copi) i'r PDC. Hyd nes y bydd hyn wedi'i wneud nid yw'r gwiriad wedi'i gwblhau at bwrpas cyflogaeth neu wirfoddoli. Bydd y PDC yn nodi rhif dystysgrif y Datgeliad ac yn ei dychwelyd i'r ymgeisydd. Yna, fe hysbysir yr eglwys neu'r corff sy'n gyfrifol am y penodiad fod y broses wedi'i chwblhau ac y gall y gweithiwr ddechrau gweithio.

Bydd unrhyw ddatgeliad 'aneglur' yn cael ei gyfeirio at y Panel (gweler isod), Ni fydd y ffaith bod trosedd wedi'i datgelu yn atal rhywun rhag gweithio neu wirfoddoli o reidrwydd.

Gall y gweithiwr / gwirfoddolwr danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddarau (dewisol) o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y Dystysgrif. (Bydd hyn yn galluogi'r ymgeisydd i gwblhau un gwiriad DBS y gellir ei ddefnyddio ar gyfer nifer o swyddi – gyda rhai eithriadau).

¹⁰ Mae gan y PDC dîm o wirwyr ar draws Cymru y gallant wirio dogfennau hunaniaeth yn lleol er mwyn hwyluso'r broses DBS. Byddant yn gofyn rhai cwestiynau syml ynglŷn â phob swyddogaeth i gynorthwyo'r cydlofnodydd i gadarnhau cymhwysedd am wiriad cyn dychwelyd y ffurflen i swyddfa'r PDC.

2.7 Datgeliadau Aneglur

(Datgeliad yn cynnwys manylion am gollfarnau, rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol, neu wybodaeth gan yr Heddlu)

Cyfeirir pob datgeliad ‘aneglur’ at banel a drefnir gan y Panel Diogelwch Cydenwadol. Mae gan aelodau’r panel arbenigedd a phrofiad perthnasol.

Ni fydd datgelu trosedd yn eich gwahardd o reidrwydd rhag gweithio neu wirfoddoli

Bydd y panel yn sicrhau bod pob unigolyn a chanddo ddatgeliad ‘aneglur’ yn cael ei drin yn deg ac yn gyfrinachol

Bydd y Panel yn derbyn gwybodaeth ddienw ynglŷn â’r drosedd ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Mae natur rhai troseddau yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i unigolyn weithio gyda phlant a / neu oedolion bregus a bydd y Panel yn ysgrifennu at yr unigolyn i esbonio nad yw’n gyfreithiol iddo ef / hi barhau yn y swydd. Mewn achosion eraill bydd y Panel yn edrych ar wybodaeth liniarol neu wybodaeth arall ac yn penderfynu a yw’r ymgeisydd yn addas i wneud y swydd yng ngoleuni’r wybodaeth a ddatgelwyd.

Yn aml bydd y Panel yn cynghori nad oes perygl penodol ynghylch y datgeliad a gall yr unigolyn barhau â’r gwaith. Mewn rhai achosion gall y Panel gynghori bod rhwydd hynt i’r unigolyn weithio neu wirfoddoli ond gall wneud argymhellion neu gynnig cyngor. Er enghraifft, yn achos datgeliad yn ymwneud â thwyll gall y Panel gynghori na ddylai’r unigolyn ymdrin ag arian yn y gwaith neu wrth wirfoddoli.

Os penderfynir na ddylid bwrw ymlaen, hysbysir Ysgrifennydd Cyffredinol yr enwad o’r penderfyniad a bydd y PDC yn cysylltu â’r eglwys i gynnig cyngor.

Bydd y Panel yn ysgrifennu at yr unigolyn ym mhob achos i esbonio penderfyniad y panel.

